Ein Bwrdd

Rydym ni'n adran anweinidigol o'r llywodraeth sy'n cael ei llywodraethu gan Fwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol gan Weinidogion. Mae'r Bwrdd yn sicrhau ein bod ni'n bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel bod pob penderfyniad neu gam gweithredu yn ystyried cyngor gwyddonol a buddiannau defnyddwyr.

Mae Heather Hancock yn cadeirio ein Bwrdd ac mae ganddo rhwng wyth a deuddeg aelod arall. Maen nhw'n gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae rheolaeth yr Asiantaeth o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i swyddogion drwy'r Prif Weithredwr

Mae'r Bwrdd yn cael ei benodi'n bennaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, gydag un aelod yn cael ei benodi gan Weinidog Iechyd Cymru, ac un gan Weinidog Iechyd Gogledd Iwerddon. Mae gwybodaeth am sut mae'r Bwrdd yn gweithio i'w gweld yn y dogfennau Cod Ymddygiad a Rheolau Sefydlog isod:

View Code of Conduct for Members of the Board of the Food Standards Agency as PDF (73.83 KB)
View Standing orders for FSA board meetings as PDF (26.07 KB)
View Terms of reference for the FSA board as PDF (35.87 KB)

Cyfarfodydd y Bwrdd

Bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 17 Mehefin 2020.

Sut i gofrestru i fod yn bresennol mewn cyfarfod neu i wylio ar-lein

Gallwch ddod i gyfarfodydd y Bwrdd i glywed ei drafodaethau am ein polisïau.

Mae'r Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus ac yn cyhoeddi agendâu, papurau a phenderfyniadau ar y cyfarfodydd hyn.

Bydd angen i chi gofrestru i fod yn bresennol neu i wylio un o'r cyfarfodydd hyn ar-lein.

Gan ei bod yn bosibl bod lleoedd yn gyfyng, a fyddech cystal â disgwyl tan i chi gael cadarnhâd swyddogol o'ch cofrestriad cyn gwneud unrhyw drefniadau i ddod i'r cyfarfod.

Cyflwyno cwestiwn

Mae Bwrdd yr ASB yn croesawu cwestiynau ar y trafodaethau a gynhelir ym mhob cyfarfod. Rydym ni'n awyddus i gael cwestiynau yn hytrach na sylwadau, a hoffwn eich cynghori i gadw ymholiadau mor gryno ac uniongyrchol â phosibl.

Unwaith y mae holl bapurau'r Bwrdd wedi'u cyhoeddi, gallwch gyflwyno cwestiynau mewn e-bost at Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Gallwch eu cyflwyno o'r bore dydd Llun cyn y cyfarfod tan hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod Bwrdd. Bydd cwestiynau ar gyfer yr ASB yn cael eu darllen allan ar ddechrau'r cyfarfod. Yna, bydd y Bwrdd a'r Weithrediaeth yn cael y cyfle i'w hateb fel

rhan o'r trafodaethau perthnasol. Bydd y rheiny sydd wedi cyflwyno cwestiynau i'r ASB yn cael ateb ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod gwaith. Yna, bydd y cwestiynau a'r atebion yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ar ôl cytuno ar gofnodion y cyfarfod.

Hefyd, mae cyfle i'r rheiny sy'n bresennol yn y cyfarfod holi cwestiynau. Bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y cyfarfod.

Cyfarfodydd y Bwrdd

		Amserlen y cyfarfodydd
Dyddiad	**Math o Gyfarfod**	**Lleoliad**
17 Mehefin 2020	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	Caerwysg (Exeter)
16 Medi 2020	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	Llundain
2 Rhagfyr 2020	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	Caerdydd
10 Mawrth 2021	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	Llundain
16 Mehefin 2021	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	I'w gadarnhau
15 Medi 2021	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	I'w gadarnhau
8 Rhagfyr 2021	Bwrdd a Phwyllgor Busnes	Llundain

Cyfarfodydd sydd wedi bod yn 2020

11 Mawrth 2020	Papurau
21 Ionawr 2020	Cofnodion, papurau a fideo

Cyfarfodydd yn 2019

18 Medi 2019	Cofnodion, papurau a fideo
19 Mehefin 2019	Cofnodion, papurau a fideo
8 Mai 2019	Cofnodion, papurau a fideo
13 Mawrth 2019	Cofnodion, papurau a fideo

Cyfarfodydd yn 2018

5 Rhagfyr 2018	Cofnodion, papurau a fideo
17 Hydref 2018	Cofnodion, papurau a fideo
19 Medi 2018	Cofnodion, papurau a fideo
20 Mehefin 2018	Cofnodion, papurau a fideo
14 Mawrth 2018	Cofnodion, paprau a fideo

Cyfarfodydd yn 2017

6 Rhagfyr 2017	Cofnodion, papurau a fideo
20 Medi 2017	Cofnodion, papurau a fideo
21 Mehefin 2017	Cofnodion, papurau a fideo
15 Mawrth 2017	Cofnodion, papurau a fideo

Cyfarfodydd sydd wedi'u harchifo

Cyfarfodydd y Bwrdd 2013-17 a 2006-2013.

Aelodau

Dylid datgan yr holl fuddiannau personol neu fusnes a allai cael eu gweld eu bod yn dylanwadu ar eu barn. Mae diddordebau o'r fath yn cynnwys cymryd rhan yn y diwydiant amaeth, bwyd a diwydiannau cysylltiedig.

- Heather Hancock – Cadeirydd Bwrdd yr ASB
- Dr Ruth Hussey – Aelod Bwrdd yr ASB dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
- Colm Mckenna - Aelod Bwrdd yr ASB ar gyfer Gogledd Iwerddon a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon
- David Brooks – Aelod Bwrdd
- Mary Quicke – Aelod Bwrdd
- Stuart Reid – Aelod Bwrdd
- Marke Rolfe – Aelod Bwrdd
- Timothy Riley – Aelod Bwrdd
- Margaret Gilmore – Aelod Bwrdd

Presenoldeb y Bwrdd

Dyma gofnod o bresenoldeb Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Busnes ac yn ARAC (Saesneg yn unig).

View 2018-19 Record of Attendance as PDF (36.39 KB)
View 2019-20 Record of Attendance as PDF (30.37 KB)

Ymrwymiadau'r Bwrdd

Mae cofnod o ymrwymiadau Aelodau'r Bwrdd i'w gweld isod (Saesneg yn unig).

View Summary of board members engagements Jan-March 2020 as PDF (88.87 KB)
View Summary of Board Members' Engagements June 2019 - September 2019 as PDF (95.64 KB)
View Board Member Engagements March 2019- June 2019 as PDF (104.85 KB)

Treuliau'r Bwrdd

Mae manylion treuliau busnes Aelodau'r Bwrdd i'w gweld drwy'r ddolen isod.

Treuliau'r Bwrdd (Saesneg yn unig)